# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

I ofyn i Weinidog y Cynulliad dros Lywodraeth Leol

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** Pa sail a ddefnyddiwyd gan y Gweinidog wrth ddyrannu'r adnoddau ar gyfer Cymorth Trethi Busnes ar ôl i glwy'r traed a'r genau daro Cymru. (WAQ11850)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** Pa feini prawf a ddefnyddiwyd i sicrhau'r adnoddau ar gyfer Cymorth Trethi Busnes ar gyfer pob Sir unigol yng Nghymru. (WAQ11851)

I ofyn i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** A fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ariannu neu'n cymryd rhan yn y Fforwm Iechyd Gwledig. (WAQ11852)

I ofyn i Weinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Yn dilyn ei ddatganiad i'r Cyfarfod Llawn ar 8 Mai, pa gamau a gymerwyd o ganlyniad i'w sylwadau i'r Gweinidog Gwladol dros Amaeth ar y modd y gweithredir y Cynllun Lles Da Byw – Gwaredu. (WAQ11855)**R**

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff roi manylion y modd y rhennir y cyfrifoldebau rhwng MAFF a'r Cynulliad ar gyfer ymdrin ag argyfwng clwy'r traed a'r genau yng Nghymru. (WAQ11856)**R**

**Peter Rogers (North Wales);** A wnaiff ymhelaethu ar ei ddatganiad i'r Cyfarfod Llawn ar 8 Mai bod y Cynulliad yn cynnal y cynllun difa ar ffermydd ffiniol fel asiant i MAFF. (WAQ11857)**R**